OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 2676 (Cy.258)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *15 Hydref 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *16 Hydref 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd yn arferadwy yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**2**) i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, a'r pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13, 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 16 Hydref 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "awdurdod rhagflaenol" ("*predecessor authority*") yw unrhyw awdurdod lleol a oedd yn bodoli yng Nghymru cyn 1 Ebrill 1996 ac nad oedd yn gyngor plwyf, yn gyngor tref nac yn gyngor cymuned;

ystyr "cyfnod cymhwyso" ("*qualifying period*") yw'r cyfnod amser y mae'r awdurdod yn penderfynu mai hwnnw yw'r cyfnod y mae'n rhaid i aelod fod wedi bod yn aelod etholedig o awdurdod neu awdurdod rhagflaenol yng Nghymru i gymhwyso ar gyfer dyfarndal am

(**1**) p. 42. Mewnosodwyd adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 gan adran 99(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
(**2**) O.S. 1999/672.
(**3**) p. 22.

wasanaeth a roddwyd a hwnnw'n gyfnod nad yw'n llai na phymtheng mlynedd erbyn 9 Mai 2003;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Blwydd-daliadau 1972(**4**);

ystyr "dyfarndal am wasanaeth a roddwyd" ("*past service award*") yw rhodd arian yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 7 o Ddeddf 1972.

### Dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd

**3.** Yn ddarostyngedig i Reoliad 4 caiff awdurdod benderfynu pa aelodau o'r awdurdod hwnnw, a'r rheini'n gynghorwyr yr awdurdod hwnnw, sydd â hawl i ddyfarndal am wasanaeth a roddwyd.

### Hawl i ddyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd

**4.** Wrth benderfynu pa aelodau sydd â hawl i ddyfarndal am wasanaeth a roddwyd yn unol â Rheoliad 3 rhaid i awdurdod —

(a) ei gwneud yn ofynnol bod aelod wedi treulio cyfnod cymhwyso;

(b) ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i aelod wneud cais ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig am ddyfarndal am wasanaeth a roddwyd erbyn y dyddiad a benderfynir gan yr awdurdod a hwnnw'n ddyddiad nad yw'n hwyrach na phum wythnos ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;

(c) ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw ar y diwrnod sy'n dilyn y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau ar gyfer etholiad cyffredin cynghorwyr awdurdodau yn 2004;

(ch) sicrhau cyn iddo dalu dyfarndal am wasanaeth a roddwyd i aelod a gyflwynodd gais yn unol â pharagraff (b) ei fod wedi'i fodloni nad yw'r aelod ar ôl hynny wedi sefyll etholiad yn etholiadau 2004 ar gyfer awdurdodau; a

(d) sicrhau nad yw'r aelod hefyd yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu Senedd Ewrop.

### Cyfrifo'r cyfnod cymhwyso

**5.**—(1) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso yn unol â Rheoliad 4(a) rhaid i awdurdod, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a bennir ym mharagraff (2), gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnodau o wasanaeth blaenorol p'un a oedd y cyfnodau hynny o wasanaeth blaenorol gyda'r awdurdod, unrhyw awdurdod arall neu unrhyw awdurdod rhagflaenol.

(2) Mae'r cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) fel a ganlyn —

(a) nid yw cyfnodau gwahardd dros dro i'w hystyried yn gyfnodau gwasanaeth;

(b) pan fydd cyfnodau o wasanaeth blaenorol gydag awdurdod rhagflaenol wedi'u treulio ar yr un pryd â mwy nag un awdurdod o'r fath, dim ond gwasanaeth gydag un gwasanaeth o'r fath sydd i'w gymryd i ystyriaeth.

(3) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso yn unol â Rheoliad 4(a) pan oedd y gwasanaeth yn wasanaeth gydag awdurdod rhagflaenol y daeth ei fodolaeth i ben ar 31 Mawrth 1996, bernir mai un flwyddyn o wasanaeth yw'r cyfnod o wasanaeth o Fai 1995 tan 31 Mawrth 1996 ac eithrio yn achos aelod a oedd hefyd yn aelod o awdurdod ar 1 Ebrill 1996.

(**4**) p.11.

**Diwygio Rheoliadau**

**6.** Ym mharagraff F o Atodlen 1 i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001(**5**) (Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau etc.) ychwanegir —

(a) yng ngholofn (1) ar ôl 1 —

"1A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd; a"; a

(b) yng ngholofn (2), o ran y cofnod yng ngholofn 1 ar gyfer eitem 1A —

"Rheoliadau o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42);"(**6**).

**7.** Ym mharagraff F o Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**7**) (Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau etc.) ychwanegir —

(a) yng ngholofn (1) ar ôl 1 —

"**1A.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd; a"; a

(b) yng ngholofn (2), o ran y cofnod yng ngholofn 1 ar gyfer eitem 1A —

"Rheoliadau o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42);"(**8**)).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**9**)

*D. Elis-Thomas*
15 Hydref 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 2001/2291 (Cy. 179).
(**6**) 1989 p.42.
(**7**) O.S. 2001/2284 (Cy. 173).
(**8**) 1989 p.42.
(**9**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, fel y'i mewnosodwyd gan adran 99(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"), yn darparu'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau. Caiff y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad â galluogi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i benderfynu pa rai o'u haelodau sydd â hawl i arian rhodd. Mae adran 18(3A) yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae adran 13(3)(a) o Ddeddf 2000 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth bod unrhyw un o swyddogaethau awdurdod lleol sydd wedi'i phennu mewn rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno yn swyddogaeth nad yw gweithrediaeth i fod yn gyfrifol amdani o dan drefniadau gweithrediaeth. Mae adran 32 o Ddeddf 2000 yn caniatáu i ddiwygiadau cyffelyb gael eu gwneud ynglŷn â chynghorau sy'n gweithredu "trefniadau amgen" gyda Bwrdd yn hytrach na gweithrediaeth.

Mae Rheoliad 3 yn galluogi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru i benderfynu pa aelodau (sydd yn gynghorwyr) sydd â hawl i arian rhodd (a elwir "dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd" yn y Rheoliadau hyn) yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 7 o Ddeddf Taliadau Pensiwn 1972.

Mae Rheoliad 3 yn galluogi awdurdodau i benderfynu pa aelodau sydd â hawl i ddyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd, yn ddarostyngedig i'r meini prawf cymhwyster yn Rheoliad 4.

Mae Rheoliad 4 yn mynnu bod rhaid i awdurdodau, wrth benderfynu cymhwyster aelodau ar gyfer dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd:

- ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod wedi treulio'r cyfnod cymhwyso a benderfynir gan y cyngor sef cyfnod nad yw'n llai na 15 mlynedd o wasanaeth erbyn 9 Mai 2003;
- ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod yn gwneud cais ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig erbyn y dyddiad a benderfynir gan yr awdurdod a hwnnw'n ddyddiad nad yw'n hwyrach na phum wythnos ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;
- ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw ar y diwrnod sy'n dilyn y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau ar gyfer etholiad cyffredin cynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn 2004;
- sicrhau, cyn talu dyfarndal am wasanaeth a roddwyd, na wnaeth yr aelod sefyll yn etholiadau 2004 ar gyfer siroedd a bwrdeistrefi sirol ar ôl gwneud cais i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig am ddyfarndal o'r fath; a
- sicrhau nad yw'r aelod hefyd yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu Senedd Ewrop.

Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i awdurdod wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso gymryd i ystyriaeth unrhyw wasanaeth blaenorol (ond heb gynnwys cyfnodau atal) gan gynnwys gwasanaeth pan oedd aelod yn aelod o unrhyw awdurdod Cymreig cyn 1 Ebrill 1996 (heb gynnwys cynghorau plwyf, cynghorau tref a chynghorau cymuned). Pan fydd gan aelod gyfnodau o wasanaeth cyn 1996 gyda mwy nag un awdurdod, a'i fod wedi treulio'r cyfnodau gwasanaeth hynny ar yr un pryd, dim ond gwasanaeth gydag un o'r awdurdodau hynny y caniateir ei ddefnyddio wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso ar gyfer gwasanaeth gydag awdurdod a oedd yn bodoli cyn 1996, ac y daeth ei fodolaeth i ben ar 31 Mawrth 1996, bernir mai un flwyddyn o wasanaeth yw'r cyfnod o wasanaeth o Fai 1995 tan Fawrth 1996 oni bai yr oedd aelod hefyd yn aelod o awdurdod ar 1 Ebrill 1996.

Mae Rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth 2001"). Mae Rhan II o Ddeddf 2000 yn darparu bod swyddogaethau awdurdod lleol yn cael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod oni bai bod y swyddogaethau hynny wedi'u pennu'n swyddogaethau nad yw gweithrediaeth yr awdurdod i fod yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau mai un o swyddogaethau'r cyngor fydd y cyfrifoldeb dros benderfynu pa aelodau fydd â hawl i gael dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd, ac maent yn gwneud hynny drwy ddiwygio Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth 2001.

Mae Rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 mewn ffordd debyg i'r diwygiad sy'n cael ei wneud drwy Reoliad 6. Mae effaith Rheoliad 7 fel a ganlyn: pan fydd cyngor yn gweithredu "trefniadau amgen" yn unol â Rhan II o Ddeddf 2000, nid yw'r cyfrifoldeb dros benderfynu pa aelodau sydd â hawl i gael dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd yn un o swyddogaethau'r Bwrdd ond yn hytrach yn fater i'r cyngor.

Mae Rheoliadau 6 a 7 yn peri bod diwygiadau yn cael eu gwneud hefyd, sef diwygiadau a fydd yn golygu bod swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau a lwfansau mewn perthynas â rheoliadau a wnaed o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn swyddogaethau nad oes modd i weithrediaeth na Bwrdd cyngor (fel y bo'n briodol) ymdrin â hwy a bod rhaid iddynt fod yn fater i'r cyngor.